

Dod â data'n fyw
– dulliau ystadegol o ymdrin â materion byd-eang
Sesiwn 6, Cyfnod Allweddol 3

A oedd menywod yn well eu byd o ganlyniad i'r grwpiau gweithredu cyfunol?

Grymuso Menywod

Mae mwyafrif y bobl sy'n byw mewn tlodi yn fenywod.



Mae sgiliau, penderfyniad a syniadau menywod yn adnoddau sy'n cael eu tanddefnyddio'n enbyd mewn perthynas â lleihau tlodi.



Mae grymuso menywod yn golygu gwneud y gorau o'r sgiliau hyn fel bod menywod yn gallu cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau a dod o hyd i waith â thâl.



Canlyniad grymuso menywod yw lleihau tlodi.



Menywod o sefydliad
cymorth yn cymryd rhan
yn ymchwil Oxfam i
ddarganfod pa effaith
mae bod yn aelod o grŵp
gweithredu cyfunol wedi'i
chael ar eu bywydau.




Mynegai Grymuso Menywod

1. Mwy o ddylanwad dros yr hyn sy'n digwydd ar ffermydd lle mae'r fenyw yn gweithio. Gallai'r ffermydd hyn fod yn ffermydd teuluol neu ffermydd masnachol.
2. Mwy o lais o ran y ffordd y mae'r arian a enillir wrth ffermio yn cael ei wario.
3. Bod yn berchen ar fwy o arian, tir, anifeiliaid a/neu offer.
4. Hawl menyw i benderfynu beth sy'n cael ei wneud gyda thir, anifeiliaid ac offer ffermio yn cael ei barchu.
5. Mwy o ddylanwad dros fenthyg arian.
6. Mwy o lais o ran y ffordd y mae arian yn cael ei wario yn y cartref (anghenion bob dydd a phwrcasau mwy)
7. Mwy o ryddid i deithio i ffwrdd o'r cartref.
8. Mwy o ryddid i fynd i gyfarfodydd grwpiau gweithredu.



Digonolrwydd mewn wyth dimensiwn o rymuso i aelodau a'r rhai nad ydynt yn aelodau yn Ethiopia



Cwestiynau ar gyfer siart Ethiopia

1. Ai'r menywod sy'n aelodau o grwpiau gweithredu cyfunol neu'r rhai nad ydynt yn aelodau sy'n gwneud yn well yn yr wyth dimensiwn?
2. Ym mha ddau ddimensiwn y mae menywod sy'n aelodau o grwpiau yn gwneud waethaf, o gymharu â menywod nad ydynt mewn grwpiau?
3. Ym mha ddau ddimensiwn y mae menywod yn Ethiopia wedi'u grymuso leiaf?



Atebion ar gyfer siart Ethiopia

1. Ai'r menywod sy'n aelodau o grwpiau gweithredu cyfunol neu'r rhai nad ydynt yn aelodau sy'n gwneud yn well yn yr wyth dimensiwn?
 - Yn gyffredinol mae'r menywod nad ydynt yn aelodau o grwpiau yn gwneud yn well, yn chwech o'r wyth dimensiwn.
2. Ym mha ddau ddimensiwn y mae menywod sy'n aelodau o grwpiau yn gwneud waethaf, o gymharu â menywod nad ydynt mewn grwpiau?
 - Rhyddid o ran symud o gwmpas a rhyddid i fynychu cyfarfodydd grŵp.
3. Ym mha ddau ddimensiwn y mae menywod yn Ethiopia wedi'u grymuso leiaf?
 - Mynediad i gredyd a rheolaeth dros incwm yr aelwyd.



Cwestiynau pellach

1. Pa ddimensiynau grymuso oedd uchaf i aelodau grwpiau?
2. Pa ddimensiynau grymuso oedd uchaf i'r rhai nad oeddent yn aelodau grwpiau?
3. Pam ydych yn meddwl bod y gwahaniaethau hyn yn bodoli (rhwng aelodau grwpiau a'r rhai nad ydynt yn aelodau)?
4. Yn seiliedig ar y graffiau hyn, a ydych yn credu bod grwpiau gweithredu cyfunol menywod yn effeithiol wrth wella grymuso menywod? Pam neu pam ddim?




I ba raddau..?


I ba raddau ydych yn cytuno â'r datganiad “mae grwpiau gweithredu cyfunol yn grymuso ffermwyr sy'n fenywod”?



Mae grwpiau gweithredu cyfunol yn cael effaith gadarnhaol ar ffermwyr sy'n fenywod.



Mae grwpiau gweithredu cyfunol yn cael effaith gadarnhaol ar ffermwyr sy'n fenywod.



I ba raddau..?

I ba raddau ydych yn cytuno â'r datganiad
“mae grwpiau gweithredu cyfunol yn grymuso
ffermwyr sy'n fenywod”?

Ysgrifennwch ymateb, gan ddefnyddio'r
geiriau 'cytuno' a defnyddio'r datganiadau, y
siartiau a'r astudiaethau achos yn eich ateb.



I ba raddau ydych yn cytuno â'r datganiad "mae grwpiau gweithredu cyfunol yn grymuso ffermwyr sy'n fenywod"?



Eich adroddiad

- Cyflwyniad (Eglurwch beth yw grwpiau gweithredu cyfunol a pha wledydd a gweithgareddau yr ydych wedi eu hastudio)
- Paragraff cyntaf (Rhowch ran o'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r datganiad: Pa ddata sy'n ei gefnogi? Pa enghreifftiau o'r astudiaethau achos?)
- Ail baragraff (Rhowch ran o'r dystiolaeth sy'n ymddangos ei bod yn gwrthddweud y datganiad.)
- Casgliad (Dywedwch i ba raddau yr ydych yn cytuno, ac eglurwch pam: Pa ddata oedd yn *darbwyll*o fwyaf? Ar y cyfan, a oedd mwy o ddata yn cefnogi neu'n gwrthddweud y datganiad?)



Strwythur arall i'r adroddiad

- Cyflwyniad (Eglurwch beth yw grwpiau gweithredu cyfunol a pha wledydd a gweithgareddau yr ydych yn eu defnyddio i seilio'ch ateb arnynt)
- Paragraff cyntaf (Eglurwch y data yn y siartiau a dewiswch rai enghreifftiau sy'n cefnogi'r datganiad a rhai sy'n ymddangos eu bod yn ei wrthddweud.)
- Ail baragraff (Dewiswch rai o ganfyddiadau'r adroddiad sy'n cefnogi'r datganiad a rhai sy'n ei wrthddweud.)
- Trydydd paragraff (Eglurwch ddata'r astudiaeth achos a dewiswch peth o'r deunydd a/neu ddyfyniadau sy'n cefnogi'r datganiad ac unrhyw rhai sy'n ymddangos eu bod yn ei wrthddweud.)
- Casgliad (Dywedwch i ba raddau yr ydych yn cytuno, ac eglurwch pam: Pa ddata oedd yn *darbwyll*o fwyaf? Ar y cyfan, a oedd mwy o ddata yn cefnogi neu'n gwrthddweud y datganiad?)

